



Panel Seibiant Anabledd a Gofal Plant CBSW

Seibiant Anabledd

Pwrpas

Pwrpas Grant Seibiant Anabledd Teuluoedd yn Gyntaf yw gwella lles a gwytnwch y teulu drwy dalu am leoliadau seibiant ar gyfer teuluoedd plant ag anableddau ac anghenion ychwanegol.

Y diffiniad o 'Anabledd neu Angen Ychwanegol' yw: anabledd, angen iechyd cymhleth neu angen ychwanegol sy'n debygol o bara mwy na 12 mis ac sy'n cael effaith sylweddol ar fywyd bob dydd (gellir ei ystyried heb ddiagnosis).

Cynnig Seibiant

Os bydd y Panel Seibiant Anabledd a Gofal Plant CBSW yn rhoi cymeradwyaeth, bydd y ddarpariaeth seibiant fel rheol yn para am 6 mis ar gyfer 1 sesiwn (3 awr) yr wythnos. Gallai'r seibiant yma byddai weithgareddau grŵp bychan mewn canolfan seibiant.

Y Broses Ymgeisio

Dim ond gweithwyr proffesiynol all gyflwyno ceisiadau am y seibiant hwn i Weinyddwr y Panel a dim ond ar ffurflen atgyfeirio Panel Seibiant Anabledd a Gofal Plant CBSW y dylid cyflwyno cais. Dylai'r ffurflen gais esbonio yn glir y rheswm y gwneir y cais ar hyn o bryd, anableddau ac anghenion cefnogi'r plentyn, a beth y mae'r atgyfeiriwr yn rhagweld y bydd seibiant yn ei gyflawni o ran canlyniadau i'r plentyn a'u teulu.

Wrth wneud ceisiadau dylid dilyn y canllawiau isod.

- ✓ Rhaid cwblhau ffurflen atgyfeirio newydd ar gyfer pob plentyn.
- ✓ Mae pob cais yn para dim mwy na 6 mis, ac mae angen cais newydd i gael rhagor o gyllid.
- ✓ Ni fydd ceisiadau anghyflawn neu annarllenadwy yn cael eu hystyried.
- ✓ Rhaid i bob cais gael ei dderbyn 3 wythnos cyn dyddiad cychwyn arfaethedig y lleoliad. Ni fydd modd gwarantu'r dyddiad dechrau y gofynnwyd amdano ar gyfer ceisiadau sydd ddim yn cyrraedd erbyn y dyddiad cau yma.
- ✓ Rhowch gyfeiriad e-bost gyda'ch cais. Bydd yr holl geisiadau a gymeradwyir yn cael eu cadarnhau ar e-bost.
- ✓ Os bydd y plentyn/person ifanc yn colli 3 sesiwn o seibiant a dalwyd amdano heb eglurhad rhesymol, bydd y cyllid yn cael ei dynnu yn ôl ar ôl y drydedd sesiwn a gollir.
- ✓ Rhaid rhoi gwybod am unrhyw newid mewn amgylchiadau ar unwaith i'r Gweinyddwr Panel.
- ✓ **Cwblhewch** bob adran o'r ffurflen atgyfeirio mor llawn â phosibl, a sicrhewch fod yr wybodaeth yn gywir.
- ✓ Cofiwch gael yr holl lofnodion angenrheidiol.

- ✓ Rhowch bwynt cyswllt clir – **rhif ffôn symudol a chyfeiriad e-bost**
- ✓ **Cadwch gopi** o'r cais wedi ei gwblhau cyn ei anfon, i gyfeirio ato os bydd angen i ni gysylltu â chi.

Proses Gymeradwyo / Apelio

Os bydd cais yn cael ei gymeradwyo, fe anfonir cadarnhad ar e-bost at y sawl a atgyfeiriodd ac at y teulu (os yn wahanol).

Os bydd cais yn cael ei wrthod yn rhannol neu yn gyfan gwbl, bydd gan yr atgyfeiriwr neu'r rhiant gyfle i apelio yn erbyn penderfyniad y Panel. Os nad ydych yn fodlon gyda'r penderfyniad a wnaed gan y panel, gallwch apelio yn erbyn y penderfyniad. Mae angen cwblhau apeliadau ar ffurflenni cais, ac mae'n rhaid cynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol neu dystiolaeth nad oedd wedi'i chynnwys ar y ffurflen gais wreiddiol er mwyn eu hystyried. Mae'n rhaid derbyn apeliadau erbyn y dydd lau cyn bob cyfarfod panel. Bydd unrhyw un sy'n cyrraedd wedi hyn yn cael eu hystyried yn y cyfarfod panel dilynol.

Ar gyfer pob ymholiad, ceisiadau am ffurflenni cais/apêl ychwanegol ac i gyflwyno ffurflenni cais wedi'u llenwi cysylltwch â'r Gweinyddwr Panel, manylion isod:

*Gweinyddwr Panel Seibiant Anabledd a Gofal Plant, Teuluoedd yn Gyntaf, 2il Lawr, Stryt y Lampint, Wrecsam,
LL11 1AR, 01978 298679 paneladmin@wrexhamgovuk*